**teithiaucerdded**

# LLANFAIRFECHAN walks

**ehangwch eich gorwelion…**
**broaden your horizons…**

- **5 daith gerdded gylchol o amgylch Llanfairfechan**



- **5 circular walks around Llanfairfechan**



### SUT YDW I'N MYND YNO?

**Ar y trên:** Mae yna arhosfan yn Llanfairfechan.
Ffôn: 08457 48 49 50. Gwefan: www.nationalrail.co.uk

**Ar y bws:** www.traveline-cymru.info
Traveline Cymru: 0871 200 22 33
Llinell Ymholiadau Cludiant Cyhoeddus: 01492 575412

**Gyda char:** Dilynwch yr A55 i gyffordd 14 neu 15 i Lanfairfechan. Dilynwch y brif ffordd i'r groesffordd a'r goleuadau traffig. Trowch i lawr Station Road ac i faes parcio ar yr ochr dde.

### MWY O DEITHIAU CERDDED YNG NGHONWY:

www.conwy.gov.uk/cefngwlad
**E-bost:** cg.cs@conwy.gov.uk
**Ffôn:** 01492 575290

## I gael copi print bras o'r daflen hon, ffoniwch 01492 575290

Paratowch ar gyfer y daith. Gwisgwch esgidiau cerdded cryf, dillad cynnes a diddos ac ewch a bwyd efo chi. Mae lluniaeth iw gael mewn siopau, bwytai a thafarnau lleol.

### HOW DO I GET THERE?

**By train:** There is a stop at Llanfairfechan.
Tel: 08457 48 49 50. Web: www.nationalrail.co.uk

**By bus:** www.traveline-cymru.info
Traveline Cymru: 0871 200 22 33
Public Transport Enquiry Line: 01492 575412

**By car:** Follow the A55 to junction 14 or 15 for Llanfairfechan. Follow the main road to the crossroads with traffic lights. Take the turning down Station Road to a carpark on your right hand side.

### MORE WALKS IN CONWY

www.conwy.gov.uk/countryside
**Email:** cg.cs@conwy.gov.uk
**Tel:** 01492 575290

## For a large print copy of this leaflet please call 01492 575290

Be prepared. Wear strong walking boots. Take warm, waterproof clothing and a packed lunch with you. Refreshments are available in local shops, cafes and pubs.

# LLANFAIRFECHAN



### Cyflwyniad

Mae Eglwys Blwyf y Santes Fair, ar allt Pen-y-Bryn, yn sefyll ar safle lle credir i eglwys fod yn sefyll ers dros 1000 o flynyddoedd. Mae tystiolaeth ddogfennol sydd yn profi bod eglwys ar y safle hon ym 1253.

### Introduction

"Llanfairfechan" means "Church of St. Mary The Lesser".
The parish church of St. Mary's stands on Pen-y-Bryn hill. It is believed a church has stood on this site for over 1000 years. There is documentary evidence that a church stood at this spot in 1253.

***Dilynwch Y Côd Cefn Gwlad os gwelwch yn dda***
Parchwch • Diogelwch • Mwynhewch.

***Please follow The Countryside Code***
Respect • Protect • Enjoy


Gwasanaeth Cefn Gwlad Countryside Service Conwy

Cyngor Cefn Gwlad Cymru Countryside Council for Wales

**DECHRAU:** Mae gyd o'r teithiau cerdded yn cychwyn o'r maes parcio ar Station Road. Cyfeirnod grid: SH 681 750.
**MAP:** Mae posib dilyn pob taith ar fap Explorer OL17.
**CŴN:** Mae'n rhaid cadw cŵn dan reolaeth tyn.

**START:** All walks start from the car park on Station Road, grid reference: SH 681 750.
**MAP:** All routes can be followed using Explorer OL17.
**DOGS:** Dogs should be kept under close control.






## 01 LLWYBR 1: O GWMPAS Y PENTREF

**Tirwedd:** ffyrdd trefol, rhai dringfeydd a disgynfeydd cymedrol.
**Pellter:** tua 5.6 cilometr / 3 ½ milltir.
**Amser:** oddeutu 2 awr.
**Llwybrau:** ffyrdd 'B' a phalmantau.

O'r maes parcio ewch ar hyd Station Road, ymlaen ardraws y groesffordd a heibio Park Road ar eich chwith. Trowch i lwybr troed gydag arwydd i'r dde yn union o flaen yr ysgol. Croeswch y bont, trowch i'r chwith a dilynwch y llwybr i fyny at Pen y bryn Road. Dilynwch y ffordd i'r dde at gyffordd. Trowch i fyny Llannerch Road ac ewch ymlaen at gyffordd. Trowch i'r chwith i fyny Terrace Walk. Ewch ymlaen am oddeutu milltir cyn cymryd yr ail drofa i'r chwith (Llwybr y gogledd) a chroesi pont droed. Fel rydych yn mynd heibio mynedfa Gwarchodfa Natur Leol Nant y Coed cewch gyfle i edrych ar y panel gwybodaeth a cherdded o amgylch y warchodfa. Dilynwch Newry Drive i fyny a thu ôl i Lanfairfechan, gan ddisgyn i Mount Road, ymuno â Valley Road a Station Road a dychwelyd i'r maes parcio.

## 02 LLWYBR 2: GLAN Y MÔR ELIAS, TRAETH LAFAN

**Tirwedd:** llwybr gwastad yr arfordir
**Pellter:** tua 4.8 cilomedr / 3 milltir.
**Amser:** oddeutu 1 ½ awr.
**Llwybrau:** palmentydd, promenâd tarmac, llwybrau glaswellt. Yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Bydd angen goriad radar arnoch.

O'r maes parcio yn Station Road trowch i'r dde tuag at y môr. Trowch i'r chwith a dilynwch llwybr y traeth i Lan y Môr Elias ac yna dychwelyd yr un ffordd. Mae'r llwybr hwn yn addas ar gyfer cadeiriau olwyn. Efallai byddwch am fynd ymlaen at Warchodfa Morfa Madryn. Mae morfa heli Glan y Môr Elias yn le gwych i wylio adar. Am daflen Gwarchodfeydd Natur Arfordirol gweler y dudalen ôl.

## 03 LLWYBR 3

**Tirwedd:** ffyrdd trefol, rhai dringfeydd a disgynfeydd cymedrol.
**Pellter:** tua 4.2 cilomedr / 2.6 milltir.
**Amser:** oddeutu 1 awr.
**Llwybrau:** ffyrdd 'B' a palmentydd, coetir a llwybrau glaswellt.

Dilynwch Llwybr 1 at yr ysgol. Ewch heibio'r ysgol, y llyfrgell a'r hen orsaf heddlu. Trowch i'r chwith i lawr ale a throi i'r chwith ar y pen. Ewch syth ymlaen drwy'r eglwys at neuadd yr eglwys. Trowch i'r dde a dilynwch y ffordd heibio'r stad tai. Ewch drwy'r fynedfa o'ch blaen (ffordd breifat). Dilynwch y trac ac ewch drwy'r giât a dilyn y ffordd at gyffordd. Ewch i'r dde drwy giât i drac. Dilynwch y llwybr o amgylch tŷ mawr du a gwyn. Ewch drwy giât mochyn i goetir - Tyddyn Drycin. Trowch i'r dde wrth y cyfeirbost cyntaf. Trowch i'r dde wrth y cyfeirbost nesaf (efallai byddwch am fynd syth ymlaen i'r wylfa) a thrwy giât mochyn. Ewch ymlaen at giât gyda Henar ar eich dde. Cerddwch ar hyd y llwybr i ochr uchaf y cae a throwch i'r chwith i ddilyn llwybr i gyffordd T. Dilynwch y llwybr i lawr i'r dde i giât a giât mochyn i Dan y Graig. Dilynwch y trac i'r chwith a thrwy giât. Trowch i'r dde cyn y giât nesaf a cherdded rhwng dwy wal. Ewch ymlaen ar hyd y terfyn ochr dde a mynd trwy giât mochyn. Dilynwch y terfyn chwith gan gadw i'r chwith ar drac i fferm Tan y Geulan i ymuno â Mount Road. Dilynwch y ffordd hon yn ôl i ganol Llanfairfechan.

## 04 LLWYBR 4: RHIWIAU


**Tirwedd:** rhai dringfeydd a disgynfeydd cymedrol, mwdlyd mewn mannau
**Pellter:** tua 5.5 cilomedr / 3.4milltir.
**Amser:** oddeutu 2 awr.
**Llwybrau:** ffyrdd 'B', traciau, llwybrau coetir a glaswelltir

Dilynwch Llwybr 1 i bwynt B
Cerddwch ar hyd Gwyllt Road. Dilynwch y trac cyntaf ar y chwith i Lys y Gwynt ac yna cymryd y trac ar eich dde tuag at yr adeilad fferm. Gan gadw'r adeiladau ar eich dde, ewch ar hyd y lôn las i giât mochyn a lôn. Ewch i fyny'r lôn a heibio Canolfan Farchogaeth Rhiwiau gydag adeiladau naill ochr y ffordd. Ewch ymlaen ar hyd y trac a chymryd y trac cyntaf ar y chwith i fyny drwy'r coed i giât mochyn. Croeswch y cae gan anelu at y bwlch mawr yn y wal. Ewch ymlaen ac i lawr i'r cae nesaf tuag at y dref a giât a giât mochyn. Dilynwch y rhes o goed ffawydd i ailymuno â rhan gynharach y daith.

## 05 LLWYBR 5: GARREG FAWR

**Tirwedd:** ffyrdd trefol rhai dringfeydd i 364m/1194' a disgynfeydd serth.
**Pellter:** tua 5.6 cilomedr / 3 ½ milltir.
**Amser:** oddeutu 2 awr.
**Llwybrau:** ffyrdd 'B' a llwybrau glaswellt.

Dilynwch Llwybr 1 i westy Pen y Bryn. Trowch i'r dde ac yna trowch ar eich union i'r chwith i ddilyn y ffordd i fyny ac o amgylch a chymryd y drydedd ffordd ar eich chwith. Dilynwch y ffordd hon i fyny rhwng y tai a throwch i'r dde i fyny llwybr tarmac. Daliwch i ddringo'r llwybr i gyffordd T ac yna trowch i'r chwith. Gyferbyn a llain werdd lydan ewch drwy giât mochyn wedi ei arwyddo Llwybr y Gogledd. Dilynwch y cyfeirbwyntiau hyn i fyny'r bryn, a dilyn godre Garreg Fawr ar eich chwith. Fel mae'r llwybr yn lefelu, cymerwch dro bedol wrth y cyfeirbwynt cyntaf i'ch cymryd at gopa Garreg Fawr. Trowch i'r dde yn union cyn y copa, gan anelu at ddwy garreg fawr ac ymuno â thrac. Trowch i'r dde wrth y trac a dilynwch y wal i gamfa ar eich dde. Ewch dros y gamfa a chymerwch y trac i gamfa arall ar eich chwith. Cadwch yn agos at y terfyn ochr dde ac ymlaen at gamfa "tua'r lle bu dechre'r daith".




## 01 ROUTE 1: AROUND THE VILLAGE

**Terrain:** town roads, some moderate ascents and descents.
**Distance:** approx 5.6 km, 3.5 miles.
**Time:** approx 2 hours.
**Paths:** B roads and pavements.

From the car park walk up Station Road. Go straight on at the crossroads and past Park Road on your left. Take a footpath sign posted to the right just in front of the school. Go over the bridge, turn left and follow the footpath up to Pen y bryn Road. Follow the road to the right. Turn up Llannerch Road. Continue along to a junction. Turn left up Terrace Walk. Continue walking for a mile to take the second turning on the left (North Wales Path) to cross a footbridge. As you pass the entrance to Nant y Coed Local Nature Reserve you may wish to look at the information panel and take a walk around the reserve. Follow Newry Drive up and around the back of Llanfairfechan, coming down Mount Road, to join Valley Road and Station Road back to the car park.

## 02 ROUTE 2: GLAN Y MÔR ELIAS, TRAETH LAFAN

**Terrain:** level coastal path.
**Distance:** 4.8km, 3 miles.
**Time:** approx 1½ hours.
**Paths:** pavements, tarmac promenade, grass paths. Suitable for wheelchairs. A radar key is required.

From the car park on Station Road turn right towards the sea. Turn left and follow the shore path to Glan y Môr Elias and return. This path is suitable for wheelchairs. You may wish to continue to Morfa Madryn Reserve. The saltmarsh at Glan y Môr Elias is a great place to watch birds. For a Coastal Nature Reserves leaflet see details on back of leaflet.

## 03 ROUTE 3

**Terrain:** town roads, some moderate and steep ascents and descents.
**Distance:** approx 4.6 km, 2.6miles.
**Time:** approx 1 hour.
**Paths:** B roads and pavements, woodland and grassland paths.

Follow Route 1 to the School. Continue past the school, the library and the old police station. Turn left down an alley to turn left at the end. Continue straight on through the close to the church institute. Turn right and follow the road past the housing estate. Go through a gateway straight ahead of you (private road). Continue along the track, go through the gate and follow the road to a junction. Go to the right through a gate on to a track. Follow the path around a large black and white house. Go through a kissing gate into the woodland - Tyddyn Drycin. At the first waymarker post turn right. At the next waymarker post turn right (you may wish to go straight on to the viewpoint) and through a kissing gate. Continue to a gate with Henar to your right. Walk up the path to the top corner of the field and turn left to follow the path to a T-junction. Take the path down to the right to a gate and kissing gate to Tan y Graig. Follow the track to the left and through a gate. Before the next gate take a right turn to walk between two walls. Continue along the right hand boundary to go through a kissing gate. Follow the left hand boundary and keep left on a track to Tan y Geulan Farm to join Mount Road to be followed back to the centre of Llanfairfechan.

## 04 ROUTE 4: RHIWIAU

**Terrain:** some moderate and steep ascents and descents, muddy in places.
**Distance:** 5.5km, 3.4miles.
**Time:** approx 2 hours.
**Paths:** B roads, tracks, woodland and grassland paths.

Follow route 1 to point B
Walk along Gwyllt Road to follow the first track on the left for 'Llys y Gwynt' to take the track on your right towards the farm building. Keeping the buildings to your right take the left hand green track to a kissing gate and a lane. Go up the lane and past Rhiwiau Riding Centre with buildings on both side of the road. Continue to take the first track on the left up through the woods to a kissing gate. Cross the field aiming for a large gap in the wall. Walk down the next field heading for the town and a gate and kissing gate. Follow a line of beech trees to rejoin an earlier part of the walk.

## 05 ROUTE 5: GARREG FAWR

**Terrain:** town roads, some steep ascents to 364m/1194' and descents.
**Distance:** approx 5.6 km, 3.5 miles.
**Time:** approx 2 hours.
**Paths:** B roads and grass paths.

Follow route 1 to the Pen y Bryn Hotel. Turn right and immediately left to follow the road up and around to take the third road on your left. Follow this up between the houses and bear right up a tarmac path. Keep going uphill to a T-junction then turn left. Opposite a broad green verge go through a kissing gate marked North Wales Path. Follow these waymarkers up the hill to skirt Garreg Fawr on your left hand side. As the path levels out take a 'U' turn at the first waymarker post to take you back towards the summit of Garreg Fawr. Just before the summit turn right, aiming for two large boulders to join a track. Turn left at the track and follow the wall to a stile on your right. Go over the stile and take the track down to another stile on your left. Keep close to the right hand boundary to continue to a stile to re trace your steps back to the start of the walk.